Ysgol Iolo Morganwg

Polisi Ymddygiad

1. Cyflwyniad

1.1 Yn Ysgol Iolo Morganwg rydym yn ymfalchïo yn yr awyrgylch gyfeillgar a hapus sy'n bodoli yn yr ysgol. Credwn y dylem ymateb yn bositif wrth ymwneud â disgyblaeth, gan weithredu polisi o wobrwyo yn hytrach na cherddu.

1.2 Cydnabyddwn fod system rheolaeth dda yn ymwneud ag ymddygiad, goddefgarwch, ymddangosiad a chwrteisi.

1.3 Disgwyliwn i bob rhiant ein cefnogi cant y cant ar faterion sy'n ymwneud â disgyblaeth a rheolau'r ysgol. Pwysleisiwn bwysigrwydd creu a datblygu hunan ddisgyblaeth mewn awyrgylch hapus a dymunol.

1.4 Ceisir ar bob adeg i glodfori ac i dynnu sylw at ymddygiad da, cwrteisi, gwaith caled, ymdrech dda a pharch a charedigrwydd at eraill. Teimlwn fod angen cynnig y cyfle i bob plentyn ddatblygu yn unigol ac i fod yn aelod o gymdeithas sy'n newid yn gyflym ac yn gyson.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

1.5 Ein bwriad yn Ysgol Iolo Morganwg yw helpu'r plentyn yn ei ymdrech i fyw a gweithio ag eraill ac i ddatblygu agweddau a rhinweddau a wnaiff ef/hi yn aelod call a dibynadwy o'r gymdeithas. Mae disgyblaeth dda yn ymwneud ag ymddygiad, goddefgarwch a moesau da.

1.6 Disgwylir cydweithrediad llwyr y rhieni ym mhob mater sy'n ymwneud â disgyblaeth a rheolau'r ysgol. Rhoddir pwyslais ar adeiladu a meithrin hunanddisgyblaeth mewn awyrgylch hapus. Bydd aelodau'r staff dysgu ac an-nysgu yn ceisio cymeradwyo ymddygiad da, moesau da, gwaith da, ymdrech a charedigrwydd tuag at eraill.

1.7 Yn Ysgol Iolo Morganwg mae'r rheolau dosbarth/ysgol yn cael eu hegluro'n drwyadl i bob disgybl. Dylai pob disgybl ddeall pob rheol. Mae'r plant a'r staff yn sicrhau bod pob rheol yn cael eu gweithredu'n gyson drwy'r ysgol.

2. Ymateb yn bositif gan Wobrwyo Ymdrechion y Plant

2.1 Yn Ysgol Iolo Morganwg teimlwn fod ymateb yn bositif ac yn adeiladol yn annog disgyblaeth dda. Mae'r ysgol yn cydnabod bod angen amrywiaeth o strategaethau er mwyn codi hunan hyder, hunan werth ac i weithredu ymatebion cadarnhaol o ymddygiad. Cydnabyddwn yr angen i amrywio'r strategaethau o bryd i'w gilydd er mwyn cadw diddordeb y disgyblion a chynnal safonau uchel.

2.2 Y prif amcanion am wobrwyo plant o fewn yr ysgol yw:-

- Eu llongyfarch am eu hymdrechion
- Eu llongyfarch am ddarn o waith da
- Eu hannog i gynhyrchu gwaith o safon uwch

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

- I annog ymddygiad a moesau da
- Defnydd cyson o'r iaith Gymraeg

Datblygwn y plant i fod yn arweinwyr gan ddilyn cynllun sy'n arwain disgyblion blwyddyn chwech i ofalu am blant iau yr ysgol yn ystod amseroedd cinio a chwarae.

2.3 Mae'r pwyslais ar yr ymdrech a roddir gan bob plentyn. Mae gan bob plentyn yn y dosbarth/ysgol yr hawl i ennill clod a gwobr.

- Sêr a sticeri clod gan gadw'r amcanion uchod mewn cof.
- Tocynnau clod gan athrawon a staff an-nysgu
- Tystysgrifau a gwobrau gan staff yr awr ginio
- Ennill amser aur ar ddiwedd prynhawn dydd Gwener
- Ennill tystysgrif Disgybl yr Wythnos
- Ennill cyfleoedd i fynd a thedi adref am gyfnod fel gwobr (babanod)
- Ennill cyfleoedd i ennill amser chwarae ymestynnol.

2.4 Yn Ysgol Iolo Morganwg 'rydym yn awyddus i annog a chynnal ymddygiad o'r safon uchaf posib. Er mwyn sicrhau hyn:

- paratoir gweithgareddau amrywiol, diddorol, gwahanol a "ffres" i'r plant. Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn cynllunio'n drwyadl ac yn dilyn amserlen gytbwys angenrheidiol.
- 'rydym yn sicrhau tegwch i bawb gan gynnig sylw cyfartal yn hytrach na chanolbwyntio ar y plant gweithgar gan ddibrisio'r gweiniad.
- gwireddwyd unrhyw fygythiad

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

- mae'r staff yn cynnig esiampl/arfer dda i'r disgyblion drwy fod yn drwsiadus, yn foneddigaidd, yn brydlon, yn weithgar ac yn ymroddgar.
- dilynir rheolau pendant ac arddangosir y rhain ar wal ym mhob ystafell ddosbarth.
- cynigir cyfrifoldebau i'r plant. Mae'r plant yn mwynhau derbyn cyfrifoldebau ac y maent yn teimlo'n bwysig ac ymfalchïent yn y ffaith bod gan yr athro ffydd ynddynt. Maent yn datblygu hunan hyder a sgiliau wrth dderbyn cyfrifoldebau megis gofal am e.e. offer celf, y gornel ddarllen, gofal am blanhigion. Newidir y cyfrifoldebau yn rheolaidd gan sicrhau fod pob plentyn yn deall beth yw ei swydd. Teimlwn fod ymddygiad priodol ynghyd â chydweithio fel aelod o dîm yn bwysig er mwyn cynnal rheolaeth o fewn yr ysgol.
- defnyddir iaith bositif e.e. yn hytrach na dweud "peidiwch a gwneud hwn" gellir dweud" Beth am i ni gerdded yn dawel?"
- mynnir gwaith safonol ar bob adeg. Bydd y plant yn dilyn eich esiampl ac fe ddônt i werthfawrogi hyn.

3. Delio ag ymddygiad annerbyniol

3.1 Yn dilyn ymddygiad nad yw yn dderbyniol rhaid delio ag achosion o'r fath yn syth.

3.2 Yn yr adran babanod gweithredir system yr haul a'r cymylau. Ar ddechrau pob dydd fydd pob plentyn a'u henw ar yr haul ac os ddigwydd i ymddygiad plentyn waethygu trosglwyddir enw'r plentyn i'r cymylau trist.

3.3 Yn yr adran Iau gweithredir system debyg ond defnyddir car goleuadau traffig-gwyrdd, oren a choch.

created using BCL easyPDF Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

3.4 Ar ôl i blentyn dderbyn y trydydd cerydd (cwmwl trist/cerdyn coch) fe fydd y plentyn yn colli amser penodol neu gyfnod o amser egwyl.

3.5 Pe bai plentyn yn parhau i gamymddwyn danfonir y plentyn i'r pennaeth a phenderfyniad y pennaeth byddai i gysylltu â'r rhieni er mwyn cyfarfod i drafod ymddygiad y plentyn a phennu targedau i wella'r ymddygiad.

3.6 Pe bai plentyn yn parhau i gamymddwyn yn gyson, er i'r ysgol weithio'n glos â'r rhieni, fe fydd angen dilyn camau pendant yr awdurdod i ddiarddel y plentyn.

3.7 Yn ystod yr awr ginio, fe fydd y staff awr ginio'n cymryd y cyfrifoldeb. Mae'r staff cinio'n atebol i'r pennaeth/dirprwy ac fe fyddant yn adrodd nôl iddo fe/hi am unrhyw gam-ymddwyn annerbyniol. Mewn achosion o gam-ymddwyn cyson gellir atal plentyn rhag derbyn cinio ysgol am gyfnod neu ei (ddanfon adre yn union wedi iddo/iddi orffen ei (f)bwyd.

3.8 Pe bai plentyn yng ngham ymddwyn yn wael danfonir at y Pennaeth neu'r dirprwy bennaeth. Cedwir cofnod o'r digwyddiad, y dyddiad a'r hyn a wnaethpwyd ar ôl delio gyda'r sefyllfa.

3.9 Pe bai'r digwyddiad yn ddifrifol wael danfonir y plentyn at y Pennaeth yn syth a chysylltir â rhieni'r disgybl.

Bydd enghreifftiau o'r ymddygiad canlynol yn mynd yn syth i'r dirprwy/pennaeth.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

- Ymladd
- Rhegi
- Cnoi
- Ymddygiad Heriol tuag at athrawon neu gynorthwywyr
- Unrhywbeth sy'n peryglu Iechyd a Diogelwch.

Fe fydd yr athro/awes sydd ar ddyletswydd iard yn delio ag unrhyw gam ymddwyn.

4. Rhieni

- Byddwch yn wyliadwrus o blant mewn trallod (distress)
- Cymerwch ddiddordeb yn eich plentyn-trafodwch bywyd ysgol, bywyd cymdeithasol, cyfeillion ac ati.
- Os ydych yn amau achos o fwlio, hysbyswch yr ysgol
- Gweithiwch gydag aelodau'r staff i gefnogi'ch plentyn i fewn a thu allan i'r ysgol.
- Peidiwch ag annog plentyn i 'dalu'r pwyth yn ôl; Ni fydd yn gweithio ac fe all wneud pethau'n waith!

4.1 Cynghorir rhieni i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn gyson. Ar wahân i ofynion cyfreithiol ystyrir presenoldeb cyson yn anhepgorol i ddatblygiad addysgol plentyn. Os nad yw plentyn yn gyson gellir effeithio nid yn unig ar ei allu i amgyffred ag agweddau pwysig o'r cwricwlwm ond ar ei ddatblygiad yn ddiweddarach.

4.2 Yn yr un modd mae'n bwysig fod plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

4.3 i'r gwrthwyneb mae rhai plant yn cyrraedd yr ysgol llawer yn rhy gynnar. Dydy'r athrawon ddim yn gyfrifol am rain am na ddisgwylir i athrawon, yn gyfreithlon, arolygu plant deg munud cyn cychwyn diwrnod ysgol.

Diweddglo

Arfer da yw rhoi canllawiau clir a phendant i blant am y safonau derbyniol sy'n ymwneud ag ymddygiad. Bydd hyn yn arwain at fywyd hapus o fewn yr ysgol. Dylai pawb yn yr ysgol gytuno ar y rheolau.

Mae'n rhaid i ni sicrhau fod pob plentyn yn derbyn ei addysg/haddysg mewn amgylchedd â gofal ac un amddiffynnol yn Ysgol Iolo Morganwg.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image